

## MYFYRDOD Y PASG

Dduw annwyl,  
 Unwaith eto yr wyt yn ein harwain  
 at y tri diwrnod hwnnw sydd wrth  
 wraidd ein ffydd ynot Ti.  
 Y dydd Gwener a elwir gennym yn  
 "Wener y Grog",  
 y dydd Sadwrn sy'n Ddirgelwch  
 Tawel,  
 y dydd Sul o Lawenydd Pur.

Felly pam mae'n rhaid i ni alw'r dydd  
 Gwener hwnnw'n "Dda" hefyd,  
 Arglwydd?  
 Gyda'i holl drasiedi, a'r gri ofnadwy  
 honno, llef y llwyradawedig?  
 Ai oherwydd ei fod wrth wraidd ein  
 ffydd ynot Ti?  
 Gyda'r cwestiwn "Pam?" yn arwydd o  
 fwriad anhygoel, a'r ateb a gawn yn y  
 bwriad anhygoel hwnnw a ddaeth â  
 rhodd anhygoel o Iachawdwriaeth i  
 ni, hyd yn oed wrth i Ti ddatgan  
 "Gorffennwyd" ac i ti roi i fyny dy  
 ysbryd o'th ewylllys dy hun.

Ac yna'r Sadwrn tawel lle mae  
 rhywun yn gofyn tybed i ble'r aethost  
 yn yr oriau tywyll hynny?  
 Yng nghredo'r Apostolion o waith  
 llaw dyn, dywedir dy fod wedi disgyn  
 i Uffern.  
 Pa "Uffern" sy'n waeth na  
 chroeshoeliad? Ac eithrio'r uffern o  
 eneidiau coll mewn lle o  
 anghrediniaeth efallai, trigfan sy'n  
 ein rhybuddio o'r perygl a ddaw o'th  
 wrthod.

Ac yna deunw at y Sul hwnnw,  
 Arglwydd, y Sul a elwir gennym yn  
 "Sul y Pasg",  
 y diwrnod gogoneddus hwnnw o  
 Atgyfodiad.  
 Y diwrnod rhyfeddol hwnnw pan y'th  
 Atgyfodwyd fel ein Harglwydd a'n  
 Gwardwr cariadus i eistedd byth  
 bythoedd ar ddeheulaw'r Tad, ac eto  
 mor agos – gan gadw'th addewid na  
 fyddi fyth yn ein gadael nac yn ein  
 hanghofio wrth i Ti wyllo drosom fel  
 ein Bugail tragwyddol.  
 Diolch i Ti Arglwydd.

*Y Parchedig Valerie H Davies,  
 Abergwaun (Sister B)  
 (Addaswyd i'r Gymraeg)*

## Ffarwel Menna



Ar ddiwedd mis Chwefror ffarweliwyd â Mrs Menna Jones a fu'n gwasanaethu fel Rheolwraig y Swyddfa am dros ugain mlynedd. Yn ddi-os byddwn yn gweld ei heisiau yn fawr iawn. Gweithiodd yn ddiwyd ac yn dawel dros yr eglwysi gan sicrhau trefn effeithiol a diffwdan yn y swyddfa. Cawn gyfle yn ystod cyfarfod y Cyngor Unedig ym mis Mawrth i gydnabod gwasanaeth ffyddlon a chydwybodol Menna dros y blynyddoedd. Diolch, Menna!  
 Wrth inni ffarwelio â Menna, rydym yn croesawu Ms Gwen Vaughan fel aelod o'r tîm i'n cynorthwyo yn y swyddfa ar sail rhan amser, dros dro. Mae Gwen eisioes wedi dechrau ar ei dyletswyddau a mawr obeithiwn y bydd yn hapus yn ein plith.

## YMDDEOLIADAU



Dymunwn fendith Duw ar y Parchedigion Alwyn Daniels, Cylch Carn Inqli (chwith) a Denzil John, Caerdydd (dde), ar eu hymddeoliad yn dilyn blynyddoedd lawer o wasanaeth arbennig. Dymunwn iechyd a hapusrwydd iddynt yn eu hymddeoliad. Diolch Alwyn a Denzil!

# Encil Y Gweinidogion

## ENCIL Y GWEINIDOGION CYMRAEG

Ar ddydd Iau, 4 Chwefror cynhaliwyd encil ar gyfer y gweinidogion Cymraeg drwy gyfrwng Zoom o dan arweiniad y Parchg Ddr Densil Morgan. Cawsom sgysiau hynod ddifyr ganddo am ddau ffigwr pwysig iawn yn ein hanes fel Bedyddwyr Cymru, sef John Myles (1621-1683) a Timothy Thomas (1720-1768). Roedd y ddau yn perthyn i gyfnodau gwahanol a'u gweinidogaethau hefyd felly yn wahanol. Roedd pwyslais John Myles ar genhadu ac arloesi tra roedd Timothy Thomas wedi bugeilio Eglwysi oedd eisoes wedi'u sefydlu, gyda'r gwaith o addysgu'r saint yn hynod bwysig. Cawsom drafodaeth ddifyr iawn wrth inni ystyried y gwersi ar ein cyfer heddiw. Diolch i bawb a ddaeth ynghyd, ond diolch i Densil yn bennaf am ein hatgoffa o'n gwreiddiau ac am ysgogi trafodaeth werthfawr.

## CYNHADLEDD GWEINIDOGION BEDYDDWYR CYMRU GYFAN 2021

Gan nad oedd yr ymweliad blynyddol â Saundersfoot yn bosibl eleni cafwyd mwy o amser i gynllunio cynhadledd ar-lein oedd yn cynnig rhywbeth gwahanol i Weinidogion ac arweinwyr eglwysi'r Bedyddwyr Saesneg eu hiaith ledled Cymru. Er i ni fethu'r sgysiau anffurfiol ar adegau bwyd, roedd yn dda croesawu'r wynebau newydd a ymunodd â ni ar-lein o bob rhan o Gymru gan gynnwys ffrindiau o'r gogledd a'r canolbarth.

I lawer o arweinwyr eglwysi mae'r

flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn heriol ac felly nid bwriad y gynhadledd hon oedd darparu mwy o gyfarfodydd ar-lein, ond cynnig 'egwyl sabothol'. Arweiniwyd ein defosiynau boreol gan y Parchg Andy Percey, Gweinidog Manvers Street, Caerfaddon a siaradodd mewn ffordd ddefnyddiol am ddod o hyd i orffwysfa mewn byd prysur. Wrth siarad o'i brofiad ei hun, cynorthwyodd Andy lawer ohonom i feddwl eto am ein hymagwedd tuag at waith, a'r Duw sy'n rhoi'r rhodd o orffwys i ni.

Cawsom ein bendithio o gael y Parchg Yinka Oyekan, Llywydd BUGB, i gyfranogi ac i weddio gyda ni. Daeth ei frwdfrydedd ag ysbrydoliaeth newydd i rai Gweinidogion blinedig. Manteisiodd sawl arweinydd ar y cyfle o dderbyn eiriolaeth gan gydnabod bod arnom i gyd angen anogaeth o'r fath gan yr Arglwydd. Cynhaliwyd ein sesiwn olaf gan Mark Ord o BMS World Mission gyda thrafodaeth banel ynglŷn â 'Sut mae arweinyddiaeth Genhadol yn ymddanogos i ni heddiw?' Clywsom am sawl amgylchiad ledled Cymru a dysgom lawer oddi wrth ein gilydd yn y drafodaeth a ddilynodd.

Byddai'n deg dweud bod pawb a fynychodd wedi ymgymryd â'r fformat ar-lein ac iddynt gael amser defnyddiol yn encilio ac yn adnewyddu.

Mae recordiadau fideo o'r sesiynau ar gael yma os hoffech eu gweld:

<https://www.youtube.com/playlist?list=PLBx84r90rdfYQjkuFVbzPJEI7Na6pXhtV>

## GAIR O DDIOLCH

Diolch yn fawr iawn i chi gyd am eich cyfarchion, cardiau a'r holl anrhegion a dderbyniais gennych ar achlysur fy ymddeoliad ar ddiwedd mis Chwefror eleni.

Diolch arbennig hefyd i bawb a gyfrannodd tuag at fy nhysteb – rwy'n gwerthfawrogi hyn yn fawr iawn.

Bu'n ffrainc ac yn anrhydedd arbenning i gael gweithio i'r Undeb am dros 20 mlynedd. Gwerthfawrogaf yn fawr fy mod, yn rhinwedd fy swydd, wedi cael y fath gyfle i gyfarfod â chymaint o weinidogion, ysgrifenyddion eglwysi, a gweithwyr diwyd yr enwad.

Rwy'n ddiolchgar iawn hefyd am gael cydweithio'n hapus gyda holl staff yr Undeb ar hyd yr amser yn Nhŷ Ilston ac ar ôl symud i'r Llwyfan.

Yn fwyaf arbennig, diolchaf am y ffrainc fawr o gael cydweithio gyda thri Ysgrifennydd Cyffredinol – Y Parchedigion Peter Dewi Richards, Peter M Thomas a Judith Morris.

*Pob bendith,  
Mrs Menna Jones*

## SWYDDOG CYFATHREBU CENHADOL A DIGIDOL

Mae Undeb Bedyddwyr Cymru yn chwilio am aelod newydd o'r tîm i ddilyn Menna Machreth fel swyddog Cydlynnydd y Genhadaeth. Rydym yn ddiolchgar i Dr Christian Williams am gyflawni'r swyddogaeth hon dros dro, nid unwaith ond dwywaith! Erbyn hyn, mae angen i Christian ddychwelyd at ei ddyletswyddau gyda phrosiectau'r Gorfforaeth a'r Undeb.

Mae'r swyddogaeth newydd hon yn adlewyrchu'r angen cynyddol i gyfathrebu'n effeithiol wrth genhadu i fyd digidol ac i gefnogi eglwysi sy'n chwilio am gymorth yn y maes hwn. Mae llawer ohonom wedi gorfod dysgu sgiliau newydd yn ystod y pandemig byd-eang ac rydym yn gobeithio y bydd y sawl a benodir yn gallu datblygu hyn ymhellach. Bydd hefyd yn canolbwyntio ar ein perthynas gyda'r genhedlaeth iau ac yn archwilio dulliau newydd o gysylltu â'r grŵp oedran hwn. Ein gobaith a'n gweddi yw y byddwn gyda'n gilydd yn gallu ysbrydoli cenhedlaeth newydd o arweinwyr ymhlith ein Heglwysi a'n Cymanfaoedd.

Mae'n swydd llawn-amser, er bod hyblygrwydd i ystyried trefniant rhannu swydd o fewn y swyddogaeth. Os ydych yn adnabod rhywun a allai fod yn chwilio am her newydd, byddwch garediced â rhannu'r wybodaeth am y swydd hon gyda nhw. Bydd mwy o fanylion ar gael ar wefan UBC yn yr wythnosau nesaf.

## APÊL TIMOTHY RICHARD



**Nodwch os gwelwch yn dda bod adnoddau newydd (fideo, powerpoint, myfyrdodau) ar gael ar ein gwefan ar gyfer Apêl Timothy Richard.**  
**Diolch yn fawr i'r Parchg Peter Thomas am baratoi y deunydd newydd.**

# AR LEOLIAD YNG NGHASTELLNEWYDD EMLYN



Dechreuais ar leoliad yng Nghapel y Graig, Castellnewydd Emlyn yn ystod y pandemig ym mis Medi 2020 ac roedd y syniadau am yr hyn yr oeddwn am ei gyflawni yn ystod y flwyddyn gyda'r diaconiaid yn byrlymu.

Y bwriad oedd: pregethu un Sul y mis; gweithio yn yr ysgolion a'r Cylch Meithrin a gynhelir yn y festri; treulio amser yng Nglyn Nest ac ymweld â'r aelodau yn eu cartrefi. Hefyd roedd trafodaethau wedi dechrau i weithio yn agos gyda'r ficer newydd, Johnathan Parker, yn y dref.

Clywsom ddigon am y bwriad i lacio'r cyfyngiadau erbyn mis Medi

ac, hefyd, y byddai diwedd ar y sefyllfa ofidus a rhwystredig. Ond, roedd yn rhaid i'r cynlluniau cael eu rhoi i un ochor am y tro.

Serch hynny, fe wnaethon ni fwrw 'mlaen yn llawn gobaith a hyder ffydd y byddai pethau yn gwella yn fuan ac y gallem agor drysau'r addoldy unwaith eto.

Y peth mwyaf pwysig oedd cyflwyno fy hunan i'r aelodau. Felly cylchlythyr amdani i ddweud wrthynt fy mod ar gael iddynt ac yn barod i weithio yn galed drostynt yn enw ein Harglwydd Iesu. Ac ar ôl hynny wrth gwrs, roedd rhaid ceisio agor drws y capel yn ddiogel unwaith eto. Daeth galwadau ffôn yn rhan bwysig o fugeilio, gyda sgysiaid am hyn a'r llall wrth ddod i adnabod ein gilydd.

Gyda chymorth y diaconiaid a Dylan, y gŵr, fe wnaethon ni lwyddo i agor yr adeilad ddiwedd mis Medi. Braff oedd gweld y capel, er ein bod yn ein mygydau ac wedi ymbellhau'n gymdeithasol, yn gyffyrddus lawn. Daeth aelodau, ffrindiau ac ymwelwyr o gapeli eraill i gefnogi, ac hefyd i chwilio am adeg o lonyddwch a chyfle i addoli ein Harglwydd mewn capel unwaith eto. Wythnos ar ôl hynny braff oedd croesawu ffrind a mentor i bregethu yn ein hoedfa Ddiolchgarwch, sef y Parch Ddr. D Densil Morgan. Ni allaf ddiolch yn

ddigonol iddo am ei gefnogaeth a'i anogaeth dros y pedair blynedd ddiwethaf. Mae'r cyfle o fod yn fyfyrwr yn ei gwmni wedi bod yn amhrisiadwy.

Roedd y tîm yn Y Graig yn bositif iawn am y dyfodol agos a'r bwriad oedd bwrw 'mlaen â'r cynllun dros y misoedd nesaf. Yn anffodus, cynyddodd achosion y Covid yn sylweddol yn yr ardal. Caeodd yr ysgolion a gwnaed y penderfyniad anodd i gadw drysau'r capel ar gau dros y Nadolig. Ac yna fe ddaeth cyfnod clo arall i'r wlad. Roedd cylchlythron, galwadau ffôn a chardiau Nadolig yn cael eu rhannu ymysg yr aelodau er mwyn cadw mewn cysylltiad.

Gyda'r brechlyn yn rhoi tamaid o obaith i ni gyd, gobeithiwn a gweddiwn y byddwn yn gallu agor y drysau i'r capel unwaith eto cyn bo hir. Ond, mae'n rhaid i ni fod yn hollol sicr gan fod iechyd a diogelwch y gynulleidfa yn dod yn gyntaf. Dydy'r flwyddyn yma ddim wedi mynd fel y gobeithiwn ond teimlaf fy mod wedi dod i adnabod aelodau Y Graig yn dda ac wedi gwneud ffrindiau gydol oes a fydd yn aros gyda mi wrth baratoi ar gyfer y dyfodol, a diolchaf iddynt yn ddiffuant am eu cefnogaeth.

*Sian Elin Thomas*

## BLWYDDYN INTERNIAETH

Rydw i wedi treulio hanner cyntaf y flwyddyn academaidd fel intern gydag Eglwys Y Tabernacl Llwynhendy, sef fy mam-eglwys, o dan adain y Parchedig John Treharne. Mae'r ddau ohonom yn cyfarfod yn gyson i drafod cynnwys y cynllun darllen yr wyf yn ei ddilyn, yn ogystal â materion bugeiliol. Yn y Tabernacl cefais gyfleoedd i bregethu ar y Sul ac arwain cyfarfodydd gweddi yn ystod yr wythnos, trefnu'r Clwb Ieuenctid, a chydlynu'r Ysgol Sul ar gyfer plant iau.

Ers mis Ionawr rydw i wedi bod yn cydweithio gydag Eglwys Carmel Pontlliw, ac edrychaf ymlaen at ymwneud mwy â bywyd yr Eglwys o dan arweiniad y gweinidog, y Parchedig Vincent Watkins. Mae Eglwys Carmel newydd ailddechrau cyfarfod pob bore Sul yn adeilad y Capel ar ôl bod ar gau yn ystod y cyfnod clo diweddar, ac yn cyfarfod

bob prynhawn Sul ar Zoom – cefais y cyfle i arwain un o'r gwasanaethau hyn yn ddiweddar, ac mae'n siŵr y daw cyfle i gyfrannu mwy i fywyd yr Eglwys dros y misoedd nesaf. Ynghlwm â hyn rydw i wedi elwa yn fawr iawn o gwmni'r Parchedig John Derek Rees o Gymanfa Gorllewin Morgannwg, wrth iddo fe weithredu fel mentor i mi.

Er na fyddwn byth yn galw fy hun yn 'dechnolegol ddawnus' mae fy nealltwriaeth yn y maes wedi datblygu dros y flwyddyn (rwy'n siŵr fod hyn yn wir am lawer ohonom) gan fod llawer o'r cyfarfodydd yn y ddwy eglwys wedi eu cynnal ar y we.

Gan ei bod hi'n nesáu at y Pasg hoffwn rannu un peth sy'n bwysig i mi am yr Ŵyl, sef ei bod yn fy atgoffa beth yw canolbwynt yr Efengyl – Crist ac yntau wedi'i groeshoelio. Er y dylen ni gofio a

myfyrio ar hyn bob dydd, mae'r Pasg yn gyfnod o'r flwyddyn pan fyddwn ni yn draddodiadol yn cofio am farwolaeth Iesu Grist ar y Groes. Dyma beth rydw i'n ei werthfawrogi am yr Ŵyl – cofio calon yr Efengyl - Crist yn marw yn fy lle ar y Groes fel iawn am fy mhechod.

*Gruff Jenkins*



# Gofid y Covid-19 yng Nglyn Nest

Gyda thristwch y nodir yma i Gartref Glyn Nest yn ddiweddar orfod wynebu'r sefyllfa fwyaf heriol a gofidus yn ei hanes. Cafwyd ein bod o fewn dim i'n gorfodi i gau'r drws. Da gennym sicrhau'n cefnogwyr hael o fewn yr enwad i'r sefyllfa wella ers hynny a bod yr arwyddion yn fwy calonogol o lawer erbyn hyn. Teimlwn yn ddyledus i Gyngor Sir Caerfyrddin am ddod i'r adwy ar yr unfed awr ar ddeg. Gyda'r pandemig yn ei anterth ar y pryd - Jayne Evans, Rheolwraig Glyn Nest, ynghyd â nifer o'i chydweithwyr wedi eu heintio gan Covid-19 - edrychais'n bur dywyll arnom. Ein hawr dywyllaf yn ddiaw oedd noswyl Nadolig pan ddeallom fod bwriad i gau'r Cartref a symud y deiliaid drannoeth i ardal Llanelli. Byddwn yn fythol ddyledus i Gyngor Sir Caerfyrddin am ddod i'r adwy a chynnig benthyg am gyfnod o fis Reolwraig o un o'u cartrefi cyfagos, yn ogystal â Pherson Cyfrifol. Llwyddwyd, gyda chymorth ychwanegol Asiantaethau Gofal, ddod â'r sefyllfa dan reolaeth. Derbyniwyd cefnogaeth Aelodau Seneddol ac Aelodau'r Senedd, Swyddogion Sirol a Chynghorwyr lleol i'n hachos. Gwyddys iddynt fod yn gweithio yn y cefndir i ddwyn sylw i'n cyflwr enbydus ac ennyn cydymdeimlad rhai mewn sefyllfa i'n helpu.

Teg cydnabod waith caled Judith Morris, Bonni Davies, Nigel Vaughan a'r Dr Carol Williams am

wythnosau lawer. Ni adawon garreg heb ei thro. Cynhaliwyd ar Zoom nifer o bwyllgorau, cynifer â thri'r wythnos. Gan amled ac amrywied y problemau oedd angen eu datrys a chan awydd oedd pawb i gyfrannu, parai nifer o'r pwyllgorau rai oriau. Gellir tystio i'r Cyfarwyddwyr ymroi'n llwyr i'w dyletswydd i'r Cartref.

Caniatawyd mis o ras i achub y sefyllfa. Trosglwyddwyd yr awenau yn ôl i ddwylo diogel Jayne cyn pen y mis. Mae bellach yn ôl wrth ei gwaith, yn raddol atgyfnerthu. Dychwelodd eraill yn y cyfamser a chyflogwyd cynifer â saith o weithwyr yn ychwaneg yn y gobaith i'w nifer brofi'n ddigon pe digwydd ein cael mewn sefyllfa debyg eto.

Bu farw chwech o'r deiliaid, pedwar o Covid-19 a dau o achosion naturiol. Cydymdeimlwn â'u teuluoedd a diolchwn iddynt am eu hamynedd a'u graslonrwydd. Ni chlywyd beio'r Cartref am yr hyn ddigwyddodd. Yn wir, derbyniwyd nifer o lythyron oddi wrth deuluoedd yn mynegi diolch am ddynerwch gofal y staff o'u hanwyliaid.

Cystal cyfaddef i mi'n bersonol ddysgu llawer. Teimlaf yn ffyddiog y deugn o'r sefyllfa'n gryfach - wedi elwa o'n helbulon. Erfyniaf eich gweddiâu ar ran y Cartref, yn enwedig y gweithwyr arwrol sy'n para i ddiodeff o effeithiau hir dymor eu hafiechyd blin.

*Parchg Irfon Roberts, Cadeirydd  
Cartref Glyn Nest*

## Cyfarfodydd Blynyddol Senana Cymru

**Cyfarfodydd Blynyddol y Senana: Caersalem Dyfed, ger Trefdraeth a Chwm Gwaun, Sir Benfro.**

Roedd Cyfarfodydd Blynyddol Senana Cymru i fod i gael eu cynnal ar 6 Mai y llynedd, ond o ganlyniad i'r pandemig bu'n rhaid eu gohirio. Yn anffodus, rydym wedi cael ein hunain mewn sefyllfa debyg eleni eto ac felly ym mis Mai 2022 y bydd Mrs Bonni Davies, Cwm Gwaun yn cael ei hurddo yn Llywydd y Senana.

Diolchir i Mrs Anne Lapage, Rhuthun am gydsynio i barhau fel Llywydd am flwyddyn arall.

Yn y cyfamser, ein bwriad yw cynnal

cyfarfod byr ar "Zoom" ar brynhawn dydd Mercher, 5 Mai, 2021 am 2 o'r gloch. Mae Zoom yn caniatáu i bobl ymuno dros y ffôn os nad ydynt ar y rhyngwryd. Estynnir gwahoddiad cynnes i bawb i ymuno â ni naill ai drwy gyfrwng y rhyngwryd neu drwy ffôn y tŷ. Ffoniwch Bonni ar 01239 820333 neu e-bostiwch [bonni@ubc.cymru](mailto:bonni@ubc.cymru) am y linc neu'r rhif ffôn ar gyfer y cyfarfod.

**Cynhadledd Flynyddol y Senana, Llambod:** Er mwyn sicrhau diogelwch y cynadleddwyr, penderfynwyd gohirio'r Gynhadledd tan 2022.

# Cenn@d

YN CYNNWYS Y GOLEUAD A SEREN CYMRU

## Croeso i Cenn@d

Mae papur wythnosol newydd Undeb Bedyddwyr Cymru ac Eglwys Bresbyteriaidd Cymru wedi cyrraedd! Dyma'r cyhoeddiad newydd sydd yn cynnwys Seren Cymru a'r Goleuad. Mae ar gael ar y we yn rhad ac am ddim: [www.cennad.cymru](http://www.cennad.cymru)

Os ydych yn dymuno cael copi caled, cysylltwch â'r Parchedig Aled Davies: 01766 819120. Cofiwch hefyd anfon eich newyddion at Aled: [aled@cennad.cymru](mailto:aled@cennad.cymru)

## CYNADLEDDAU BLYNYDDOL

Rydym yn paratoi ar gyfer ein Cynadleddau Blynyddol, pryd y cynhelir oedfaon rhithiol ynghyd â chyfarfodydd wyneb yn wyneb gyda niferoedd cyfyngedig yn bresennol.

Byddwch garediced â nodi'r dyddiadau canlynol:

**Y Gynhadledd Gymraeg:  
20-22 Mehefin 2021  
(Cyfarfodydd Rhithiol)**

**Y Gynhadledd ddi-Gymraeg:  
23 Mai – 27 Mehefin 2021  
(Cynhelir Cyfarfodydd Rhanbarthol ar draws Cymru yn diweddu gyda darllediad byw ar 27 Mehefin am 6.30yh).**

**GWEFAN NEWYDD UBC**  
Edrychwn ymlaen at lansio gwefan newydd Undeb Bedyddwyr Cymru yn ystod yr wythnosau nesaf!

**RHIF FFÔN A CHYFEIRIAD  
E-BOST NEWYDD Y SWYDDFA:**

**Rhif Ffôn: 0345 222 1514**

**E-bost: [post@ubc.cymru](mailto:post@ubc.cymru)**



**Bendithion y Pasg oddi wrth  
Judith, Simeon, Bonni, Nigel,  
Helen, Christian a Gwen.**